PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 19 Awst 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
S.M. Allen, J.M. Charles, D.M. Cundy, I.W. Davies, J.A. Davies, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Madge a B.D.J. Phillips

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorydd D.T. Williams ynghylch cais cynllunio W/35975 a W/37473
Y Cynghorydd L.M. Stephens a anerchodd y Pwyllgor ynghylch cais cynllunio PL/01992

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
N. Daniel, Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu [Tywi Taf]
G. Glenister, Swyddog Rheoli Datblygu
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
G. Morgan, Technegydd Cynorthwyol (Cyswllt Cynllunio)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 10.05 yb - 12.45 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G.B. Thomas a J. E. Williams.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Y Cyng. C. Jones	3: PL/02036 - Estyniad i'r bloc swyddfeydd presennol – Adeiladau'r Goron, Stryd yr Eglwys, Llanelli, SA15 3TH	Cyn-weithiwr i Tinopolis.
Y Cyng. S.J.G. Gilasbey	3: PL/02036 - Estyniad i'r bloc swyddfeydd presennol – Adeiladau'r Goron, Stryd yr Eglwys, Llanelli, SA15 3TH	Mae merch ei chefnder yn gweithio yn y cyfryngau.

3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

3.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y ceisiadau cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio ymweld â'r safle:-

W/35975	**Newid defnydd y tir a'r adeiladau i greu lleoliad ar gyfer digwyddiadau corfforaethol er mwyn cynnal gweithgareddau saethu colomennod clai, pysgota a rheoli ceirw ar dir ger Fferm Pantgwyn, Felin-wen, Caerfyrddin** **RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i ddeall pryderon gwrthwynebwyr yn well ynghylch: • Effaith sŵn posibl ar eiddo cyfagos. • Pryderon diogelwch llwybrau troed.
W/37473	**Cadw trapiau colomennod clai, mannau saethu a strwythurau cysylltiedig - tir ger Fferm Pantgwyn, Felin-wen, Caerfyrddin** **RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i ddeall pryderon gwrthwynebwyr yn well ynghylch: • Effaith sŵn posibl ar eiddo cyfagos. • Pryderon diogelwch llwybrau troed.

3.2 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

PL/00938	**Preswylfa newydd - paddock plot gerllaw 100 Heol y Cyrnol, Betws, Rhydaman, SA18 2HP**
PL/01196	**Datblygiad preswyl arfaethedig sy'n cynnwys 33 o anheddau a chartref gofal 84 gwely gyda mynediad cysylltiedig, parcio ceir, tirlunio a gwaith seilwaith - Hen Ysgol yr Ynys, Ynys Las, Llanelli, SA14 9BT** Derbyniwyd ceisiadau e-bost am ymweliad safle gan Aelodau Lleol, Cynghorwyr. F. Akhtar ac S.L Davies oherwydd pryderon ynghylch materion traffig, parcio a thagfeydd posibl. Ystyriwyd y cais am ymweliad safle gan y Pwyllgor ond fe'i gwrthodwyd wedyn ar y sail bod yr adroddiad a'r cyflwyniad ffotograffig yn darparu gwybodaeth ddigonol i'r Pwyllgor ystyried y cais.
PL/01621	**Gwaredu'r sied storio bresennol, cadw ystafell haul ar gyfer llety atodol ac addasiadau i annedd er mwyn hwyluso newidiadau i gynlluniau mewnol a phrif ystafell ychwanegol - 13 Llys y Crofft, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0HG.**
PL/02036	**Estyniad i'r bloc swyddfeydd presennol – Adeiladau'r Goron, Stryd yr Eglwys, Llanelli, SA15 3TH** [Noder: Datganodd y Cynghorydd C. Jones a'r Cynghorydd S.J.G. Gillasbey fuddiant wrth ystyried y cais a gadawsant y cyfarfod cyn i'r bleidlais gael ei chynnal.]

3.3 **PENDERFYNWYD gohirio'r cais canlynol** er mwyn galluogi'r Swyddog Rheoli Datblygu i drafod gyda'r ymgeisydd a yw'n barod i wneud unrhyw newidiadau i ddyluniad ac ymddangosiad yr adeilad, a allai wneud y datblygiad yn dderbyniol o fewn ardal gadwraeth.

PL/01992	**Cadw adeiladau allanol domestig ar wahân – 4 Maes yr Eglwys, Llansaint, Cydweli, SA17 5JE** Daeth sylw i law gan yr aelod lleol i gefnogi'r cais ar y sail bod y cais: • wedi'i gefnogi gan y gymuned leol • dim ond o fan agos yr oedd yr adeilad yn amlwg • byddai'r ymgeisydd yn cael ei orfodi i werthu'r eiddo pe bai'r cais yn cael ei wrthod. Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd wrth i'r adroddiad gael ei ystyried.

4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR29AIN GORFFENNAF, 2021

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2021, gan eu bod yn gywir.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]